Prifysgol Abertawe
Swansea University

30 Mai 2024

I bwy bynnag a fynno wybod,

**Llythyr ymrwymiad i flaenoriaethau'r Concordat ar gyfer Cynaliadwyedd Amgylcheddol Arferion Ymchwil ac Arloesi**

Ar ran Prifysgol Abertawe, rwyf innau, **yr Athro Paul Boyle** (Is-ganghellor), yn cadarnhau ein hymrwymiad i'r meysydd blaenoriaeth a amlinellir yn y Concordat ar gyfer Cynaliadwyedd Amgylcheddol Arferion Ymchwil ac Arloesi.

Mae **Prifysgol Abertawe** yn llwyr gefnogi'r meysydd blaenoriaeth a amlinellir yn y concordat. Byddwn yn gweithredu yn unol â'r holl flaenoriaethau o ran arferion, ac yn cydnabod ein cyfrifoldebau fel llofnodwr, fel y'u nodir yn y concordat.

Drwy lofnodi'r concordat hwn, rydym yn cydnabod bod angen newid sut rydym yn cynnal gwaith ymchwil ac arloesi, yn ogystal â hyrwyddo atebion ehangach. Rydym hefyd yn cytuno i gymryd camau gweithredu cyffredin nawr ac yn y dyfodol i leihau a dileu ein heffeithiau amgylcheddol a'n hallyriadau ein hunain a llwyddo i ymaddasu i arferion cynaliadwy.

A ninnau'n brifysgol sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, rydym yn ymrwymedig i optimeiddio cynaliadwyedd amgylcheddol ein hymchwil, ein gweithgareddau addysgu a'n gweithrediadau. Wrth lofnodi'r concordat, rydym yn nodi y byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein perfformiad cynaliadwyedd sy'n arwain y sector wrth ddarparu campysau sy'n bositif o ran carbon a'r amgylchedd naturiol. Rydym hefyd yn ymrwymo i ragori o ran ymchwil ac arloesi, gan barhau i gael effeithiau cadarnhaol ar ddatblygu cynaliadwy a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Yn gywir,

PJ Boyle

**Yr Athro Paul Boyle**
**Is-ganghellor**
**Prifysgol Abertawe**
**30 Mai 2024**